# Cofnod Penderfyniadau:
# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Decision Record:
# Police and Crime Commissioner for North Wales

| | |
|---|---|
| | **Rhan 1 / Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2023/36** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Adolygiad Cyfnodol o Lwfansau'r Cydbwyllgor Archwilio | Periodic Review of Joint Audit Committee Allowances |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Penderfynwyd yn flaenorol fod y lwfans a dalwyd i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'w ddiwygio bob 5 mlynedd. Cyfeirnod Hysbysiad Penderfyniad 2021.01.<br><br>Mae'r diwygio cyntaf i fod o 1 Ebrill 2023.<br><br>Y cyfraddau diwygiedig ydy £2,700 y flwyddyn i'r Cadeirydd a £2,400 y flwyddyn i bob Aelod Annibynnol.<br><br>Er mwyn cyrraedd y cynnig, rhoddwyd Mynegai Pris Cwsmeriaid am 5 mlynedd (mis Medi 2017 tan fis Medi 2022) i'r cyfraddau presennol (£2,500 a £2,250 yn y drefn honno) ac wedi'i dalgrynnu i'r ffigyrau uchod. Cymharwyd â swyddi cydbwyllgorau archwilio eraill yng Nghymru a Lloegr, mewn plismona ac mewn sectorau eraill. Canfuwyd fod y cyfraddau uchod yn nes at ganol yr ystod, ac yn nes at y cymedr.<br><br>Ailadroddir yr ymarfer yn hydref 2027, gan fynegeio'r lwfansau i fis Medi 2027, gan yna gymharu'r canlyniadau gyda swyddi tebyg eraill (ar gyfer rhesymoldeb), gydag unrhyw gynnydd o 1 Ebrill 2028. | It was previously decided that the allowance paid to Joint Audit Committee members would be revised every 5 years. Reference Decision Notice 2021.01<br><br>The first revision is due from 1 April 2023.<br><br>The revised rates proposed are £2,700 pa for the Chair and £2,400 pa for each Independent Member.<br><br>To arrive at the proposal a 5-year CPI (September 2017 to September 2022) was applied to the current rates (£2,500 and £2,250 respectively) and rounded to the figures above. Comparison was made with other audit committee posts in England and Wales, in policing and in other sectors, and found the above rates to be near the middle of the range, and close to the mean.<br><br>The exercise will be repeated in autumn 2027, indexing the allowances to September 2027, then comparing the results with other similar posts (for reasonableness), with any increase to be applied from 1 April 2028. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Bydd angen cynyddu'r gyllideb ar gyfer lwfansau pob 5 mlynedd.<br><br>Bydd sicrhau bod lwfansau'n cael eu hadolygu a'u cynyddu'n gyfnodol o gymorth i sicrhau bod ymgeiswyr cymwys addas yn ymgeisio am swyddi gwag ar y Cydbwyllgor Archwilio. Yn ogystal, gall aelodau barhau yn y swydd er mwyn darparu dilyniant.<br><br>Mae'n ofyniad cyfreithiol i gael Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cydbwyllgor Archwilio effeithiol yn rhan hanfodol | The budget for allowances will need to be increased in every 5-years.<br><br>Ensuring that allowances are reviews and increased periodically will help ensure that suitably qualified candidates apply for Joint Audit Committee vacancies, and that members might be retained to provide continuity.<br><br>It is a legal requirement to have a Joint Audit Committee. An effective Joint Audit Committee is an integral part of |

| | |
|---|---|
| o lywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu, ac mae'n cyfrannu at gyflawni gwasanaethau, rheoli risg a gwerth am arian. | the governance of the Office of the Police and Crime Commissioner and Force, and contributes to the delivery of services, risk management and value for money. |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| *Rwyf yn cadarnhau bod hwn yn gais priodol i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Cyhoeddir Rhan 1 o'r ddogfen hon.* | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner. Part 1 of this document is to be published.* |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date**<br><br>**30 Tachwedd / November 2022** |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
| *Gallaf gadarnhau fy mod yn cymeradwyo'r hyn a nodwyd uchod* | *I confirm that the above request has my approval* |

Llofnod / Signature:

*Andy Dunbobbin*
*Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Police and Crime Commissioner*
Dyddiad/Date: 12 Rhagfyr / December 2022